**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen**
**Nos Fawrth, 17eg o Fehefin `14 am 7.30 y.h.**

## Yn Bresennol

Cynghorwyr – Dafydd Roberts, William Jones, Olwen Roberts, Sianelen Pleming, Gwilym Williams, William Jones, Dewi Ellis ag Ann Williams

## Ymddiheuriadau

Emlyn Hughes

## Nos Fawrth, 17eg o Fehefin `14 am 7.30 y.h

Croesawyd pawb ir cyfarfod gan y Cadeirydd William Jones.

## Cofnodion Nos Fawrth, 13eg o Fai `14 am 7.30 y.h

Yn unfrydol penderfynwyd fod y cofnodion yn gywir.

## Dangos Diddordeb

Dim

## Materion yn codi

Dim

## Ceisiadau Cynllunio

Llecyn, Llithfaen – Diddymu Cytundeb 106
Bryn Gwynt, Llithfaen – Diddymu Cytundeb 106
Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid ir cytundebau gael ei diddymu.

## Ceisiadau Ariannol

Clerc / Clerk: Ms Elin Tudur, 1 Fron Oleu, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5LN
info@llynjoinery.com 01758 701 698

Capel Isaf, Llithfaen. Derbyniwyd llythyr am gais ariannol ynghyd a mantolen.
Cynigwyd swm o £1000 gan y Cyng. Gwilym Williams ac fe` i eiliwyd gan y Cyng. Dewi Ellis.

## Materion eraill

Clwb Ffermwyr Ifanc
Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol.

Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru
Derbyniwyd agenda y cyfarfod blynyddol

Cyfrifon `13 - `14
Cyflwynwyd a mabwysiadwyd y cyfrifon. Maent wedi cael ei gyrru i Hacker Young.

Cabinet Ffeilio
Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid prynu cabinet ffeilio newydd ir Clerc

Grid Gwartheg, Nant Gwrtheyrn
Derbyniwyd copi o lythyr a roddwyd i ffermwyr y Nant yw hysbysu fod Nant Gwrtheyrn wedi tynnu yn ôl o osod y grid gwartheg ar y lon oherwydd y gost. Gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw newydd o hyn gofynnwyd ir Clerc wahodd Jim O`Rouke ir cyfarfod nesaf i esbonio. Roedd y Cynghorwyr yn teimlo fod Nant Gwrtheyrn wedi torri eu gair ar y mater.

Groes Pentrefuchaf
Gofynnwyd ir Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn ir Sir farbio y groes eto gan nad oedd yn foddhaol.

Yswiriant Aon
Derbynnid adnewyddiad or yswiriant a penderfynwyd yn unfrydol yw dderbyn.

Storfa Minafon, Llithfaen
Gofynnwyd ir Clerc ysgrifennu llythyr o gefnogaeth am gais i gael tŷ i berson lleol ar y safle.

Plismon
Gofynnwyd ir Clerc gysylltu a Phlismon Nefyn i ddangos presenoldeb yn y Pentref ar ôl digwyddiadau o ymddygiad wrthgymdeithasol fel torri ffenestri. (Incident Number R094733).
Robin Humphreys, Plismon Nefyn 07880 156 916.

Clerc / Clerk: Ms Elin Tudur, 1 Fron Oleu, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5LN
info@llynjoinery.com 01758 701 698